O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2023 Rhif 716 (Cy. 108)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Llandovery Road, Llanwrtyd, Powys) (Gwahardd Aros) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Mehefin 2023* |
| *Yn dod i rym* | *3 Gorffennaf 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A483, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys ac wedi rhoi hysbysiad o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Llandovery Road, Llanwrtyd, Powys) (Gwahardd Aros) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Gorffennaf 2023.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

mae i "bathodyn person anabl" ("*disabled person's badge*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1) a 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000(**1**);

mae i "disg parcio" ("*parking disc*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(**2**);

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion;

mae i "y safle perthnasol" ("*the relevant position*") yr ystyr a roddir gan reoliad 4 o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000.

**Gwahardd aros**

**3.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros yn y gilfan ar y darn o ochr dde-ddwyreiniol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 151 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ymyl heb ei mabwysiadu a elwir hefyd yn Llandovery Road am 57 o fetrau ar unrhyw adeg rhwng 20:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod yn Llanwrtyd, Powys.

**Esemptiadau**

**4.**—(1) Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 3 cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi—

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(d) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ddarn arall o ffordd, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

    (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

    (ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

    (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r gilfan; neu

(**1**) O.S. 2000/1786 (Cy. 123), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/3082 (Cy. 306). Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) O.S. 2000/1785 (Cy. 122).

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio yn y darn o'r gilfan, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**1**);

(e) cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(f) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darn hwnnw o'r gefnffordd neu'n gyfagos ato;

(g) cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol—

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo wneud hynny;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth; neu

(iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

(2) Caiff person beri neu ganiatáu i gerbyd sy'n dangos yn y safle perthnasol fathodyn person anabl a disg parcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gyfrifol am y cerbyd, wedi nodi arnynt yr amser pryd y dechreuodd y cyfnod aros) aros ar ochr y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 3 am gyfnod nad yw'n fwy na 3 awr, gydag awr o leiaf yn gwahanu'r cyfnod hwnnw a chyfnod blaenorol y bu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar ochr y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 3.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 28 Mehefin 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

---

(**1**) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).